Afasic GeirfA

Anawsterau i ddeall neu dderbyn iaith

Beth yw anawsterau i ddeall neu dderbyn iaith?

Caiff llawer o blant y mae datblygiad eu lleferydd a'u hiaith yn destun pryder anhawster i ddeall yr hyn a ddywedir wrthynt. Hynny yw, mae eu dealltwriaeth o iaith lafar yn is na'r lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran. Adwaenir anawsterau o ran amgyffrediad fel "anawsterau i dderbyn iaith" weithiau. Ar gyfer y plant hyn, mae'n bwysig ystyried sgiliau gwrando a siarad ar wahân, oherwydd ni fydd y ddau'n cydweithio'n effeithiol. Oni bai eu bod yn cydweithio'n effeithiol neu nes y byddant yn cydweithio'n effeithiol, bydd hyn yn amharu ar allu plentyn i ddysgu, oherwydd mae deall iaith yn hanfodol i ddysgu ac i ddeall y byd.

Mae llawer o sgiliau yn gysylltiedig â deall iaith, yn cynnwys:

- y gallu i glywed. Mae rhai plant yn colli eu clyw yn ysbeidiol a all effeithio ar eu dealltwriaeth o iaith.
- y gallu i dalu sylw i synau iaith lafar. Caiff rhai plant anhawster i roi a dal sylw mewn sefyllfaoedd penodol neu efallai y bydd eu gallu i reoli eu sylw yn llai na'r hyn a ddisgwylir o blentyn o'u hoedran hwy.
- y gallu i wahaniaethu rhwng synau iaith lafar
- y gallu i brosesu iaith. Caiff rhai plant anhawster i "ddod i ddeall" iaith – bydd yn cymryd mwy o amser iddynt ddeall yr hyn a ddywedir.
- cof am resi o synau iaith lafar
- gwybodaeth am ystyr geiriau
- gwybodaeth am strwythur brawddegau
- y gallu i wneud synnwyr o iaith yn ei chyd-destun ac y tu allan i'w chyd-destun
- anawsterau gyda golwg

Gellir cael anawsterau ag unrhyw un o'r sgiliau hyn – dylid ystyried hyn yn ystod asesiad.

Efallai na fydd nodi anawsterau plentyn yn broses syml oherwydd mae yna lawer o ffyrdd y gall plentyn ddeall neu hyd yn oed rhagweld yr hyn sy'n ofynnol heb ddeall yr hyn a ddywedwyd hyd yn oed. Gall ystumiau, mynegiant yr wyneb, cliwiau o'r sefyllfa roi gwybodaeth hanfodol.

Ar y llaw arall, efallai y bydd plant o'r fath yn dangos arwydd o anawsterau ymddygiadol neu ddiffyg diddordeb ymddangosiadol. Mae hyn yn fwy tebygol fyth mewn sefyllfaoedd lle mae gofyn i'r plant ddeall iaith lafar yn benodol.

Dengys ymchwil fod anhawster i ddeall yn fwy cyffredin nag a gredwyd o'r blaen. Bydd gan hyd yn oed blant yr ymddengys eu hanawsterau i fod yn gyfyngedig i iaith fynegiannol anawsterau ysgafn ond arwyddocaol i dderbyn iaith.

Asesu

Gan fod anawsterau i ddeall iaith lafar yn gymhleth, nid yw cynnal asesiad yn hawdd. Mae nodi nam ar y clyw neu nam ar y golwg yn hanfodol oherwydd gall y rhain effeithio ar y gallu i ddeall gwybodaeth.

Mae'n hanfodol hefyd asesu gallu plentyn i dalu sylw, oherwydd efallai fod nam y plentyn yn deillio o hyn yn hytrach na'i ddealltwriaeth. Ar y llaw arall, ni fydd rhai plant sydd yn talu sylw yn deall yr hyn a ddywedir wrthynt. Efallai y bydd nam ar allu plentyn i brosesu gwybodaeth. Dylid asesu a fyddai rhoi mwy o amser yn gwneud gwahaniaeth ai peidio.

Oherwydd yr holl ffactorau hyn, mae arsylwi'n chwarae rhan hanfodol mewn unrhyw asesiad, ac mae'n bwysig y caiff y plentyn ei arsylwi mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gyda phobl wahanol.

Pan gaiff plentyn ei asesu nad Saesneg yw ei famiaith, bydd angen cymryd gofal arbennig. Caiff y rhan fwyaf o brofion eu cynnal yn Saesneg ac nid ydynt, felly, yn rhoi darlun cywir oherwydd rhagfarn ddiwylliannol. Yn ddelfrydol dylid cynnal yr asesiad ym mamiaith y plentyn yn ogystal ag yn Saesneg.

Cyfeiriadau

Martin, D a Miller, C (1996), *Speech and Language Difficulties in the Clasroom*, David Fulton

Bishop, D, The concept of comprehension in language disorder yn *Proceedings of the First International Symposium on Specific Speech and Language Disorders in Children*, Afasic

Bishop, D, Comprehension in developmental language disorders yn *Developmental Medicine and Child Neurology*, 21, t.225-238.

Ysgrifennwyd gan Chris Donlan PhD, Coleg Gwyddorau Lleferydd yr Ysbyty Cenedlaethol.